Tystiolaeth Ariannol ar gyfer GDC
Blwyddyn Academaidd - 2010/11

Grant Dysgu'r Cynulliad
www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/GDC

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

cyllid myfyrwyr cymru

cyllid myfyrwyr cymru

Cynnwys

Manylion Personol

Manylion Cenedligrwydd

Manylion Annibyniaeth

Manylion Ariannol y Cartref

SYLWCH
Derbyniwn dystiolaeth ddogfennol wreiddiol yn unig.
Os anfonwch lungopïau bydd yn oedi'ch cais.
Byddwn yn dychwelyd dogfennau gwreiddiol i chi cyn gynted â phosibl.

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Manylion Personol

- Oedran/Hunaniaeth
- Manylion Cyfeiriad
- Statws Priodasol

Nôl i Ben y Dudalen

SYLWCH – Derbyniwn dystiolaeth ddogfennol wreiddiol yn unig. Os anfonwch lungopïau, bydd yn oedi'ch cais. Byddwn yn dychwelyd dogfennau gwreiddiol i chi cyn gynted â phosibl.

Oedran/Hunaniaeth

Rhaid i bawb gyflenwi un o'r canlynol fel prawf o'u hoedran/hunaniaeth:

- Tystysgrif Geni/Mabwysiadu; neu
- Pasport.

Os ydy'ch enw'n wahanol i'r hyn sydd naill ai ar eich pasport neu dystysgrif geni/mabwysiadu, rhaid i chi ddarparu prawf o'ch newid enw:

- Gweithred Newid Enw; neu
- Dystysgrif Priodas.

Nôl

Manylion Cyfeiriad

Rhaid i bawb gyflenwi prawf o'u cyfeiriad. Rhaid mai'ch cyfeiriad cartref yw hwn ac nid y cyfeiriad lle byddwch yn byw dros dro ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Rhaid i'r dystiolaeth beidio â bod yn fwy na 3 mis oed:

- Hysbysiad o Ddyfarniad y Credyd Treth - TC602 (E); neu
- Bil gwasanaeth (e.e. Nwy, Trydan, Treth y Cyngor etc.)

Os newidiwch eich cyfeiriad yn ystod y flwyddyn academaidd, rhaid eich bod chi'n byw yng Nghymru o hyd er mwyn parhau i gael GDC AB.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Statws Priodasol

Rhaid i bawb ddarparu prawf o'u statws priodasol, gweler y tabl isod:

Statws Priodasol	Tystiolaeth Angenrheidiol
Priod	Eich tystysgrif priodas
Partneriaeth Sifil	Eich tystysgrif partneriaeth sifil
Wedi Ysgaru	Eich archddyfarniad absoliwt, gorchymyn diddymu neu lythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau'ch statws.
Wedi gwahanu	Llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau'ch statws.
Partneriaeth Sifil wedi Diddymu	Eich gorchymyn diddymu neu lythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau'ch statws.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Manylion Cenedligrwydd

Er mwyn bod yn gymwys am GDC AB, rhaid i chi fodloni'r meini prawf preswylio a chenedligrwydd a nodwyd ar gyfer y cynllun GDC AB. Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â phreswylio a chenedligrwydd, dylech gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid GDC AB.

Aelod wledydd yr UE
Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Groeg, Hwngari, Iwerddon, Yr Eidal, Latvia, Lithuania, Luxembourg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, România, Slofacia, Slofenija, Sbaen, Sweden a'r Deyrnas Unedig.

Aelod Wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
Pob un o'r uchod, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy

A. Gwladolyn y Deyrnas Unedig
B. Gwladolyn yr AEE neu'r Swistir
C. Aelod teuluol o wladolyn yr AEE
D. Gŵr, Gwraig neu Bartner Sifil Gwladolyn o'r Swistir
E. Plentyn gwladolyn o'r Swistir
F. Plentyn gwladolyn o Dwrci
G. Statws preswylydd sefydlog: Caniatâd amhenodol i Ddod i'r Deyrnas Unedig neu Aros ynddi
H. Ffoadur
I. Aelod teuluol Ffoadur
J. Wedi cael 'Caniatâd i Ddod i'r Deyrnas Unedig neu Aros ynddi'
K. Aelod teuluol rhywun sydd Wedi Cael 'Caniatâd i Ddod i'r Deyrnas Unedig neu Aros ynddi'

Nôl i Ben y Dudalen

SYLWCH - Derbyniwn dystiolaeth ddogfennol wreiddiol yn unig. Os anfonwch lungopïau, bydd yn oedi'ch cais. Byddwn yn dychwelyd dogfennau gwreiddiol i chi cyn gynted â phosibl.

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

(A) Gwladolyn y Deyrnas Unedig

Er mwyn cymhwyso'n Wladolyn y Deyrnas Unedig, rhaid i chi fod wedi preswylio yn y Deyrnas Unedig am y 3 blynedd diwethaf. Rhaid i bawb gyflenwi un o'r canlynol fel prawf o'u cenedligrwydd:

- Tystysgrif Geni/Mabwysiadu; neu
- Pasport.

Os cawsoch eich geni y tu allan i'r Deyrnas Unedig a bod gennych dystysgrif geni Brydeinig a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Is-gennad Prydeinig, anfonwch hon neu lythyr neu ddogfen arall yn hytrach na'ch pasport.

Nôl

(B) Gwladolyn yr AEE neu'r Swistir

Er mwyn cymhwyso'n Wladolyn yr AEE neu'r Swistir, rhaid i chi fod wedi preswylio yn yr AEE neu'r Swistir am o leiaf 3 blynedd cyn gwneud cais. Mae angen y dystiolaeth ganlynol fel prawf:

Cyflogedig	Hunangyflogedig	Chwilio am Waith	Cyflogedig yn y Gorffennol
• P60; neu • lythyr gan gyflogwr ar bapur pennawd.	• cyfrifon archwiliedig; • ffurflenni treth; neu • fanylion eich incwm.	• P60; • hen P45; • llythyr gan gyn cyflogwr ar bapur pennawd; • cyfrifon archwiliedig; • ffurflenni treth; neu • fanylion eich incwm.	• P45; • P60; neu • lythyr gan gyn cyflogwr ar bapur pennawd;

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

(C) Aelod teuluol o wladolyn yr AEE

Rhaid i chi ddarparu:

- Pasport neu Gerdyn Hunaniaeth Genedlaethol eich perthynas;
- Prawf o'ch perthynas iddynt; a

Cyflogedig	Hunangyflogedig	Chwilio am Waith	Cyflogedig yn y Gorffennol
• P60; neu • lythyr gan gyflogwr ar bapur pennawd.	• cyfrifon archwiliedig; • ffurflenni treth; neu • fanylion eich incwm.	• P60; • hen P45; • llythyr gan gyn cyflogwr ar bapur pennawd; • cyfrifon archwiliedig; • ffurflenni treth; neu • fanylion eich incwm.	• P45; • P60; neu • lythyr gan gyn cyflogwr ar bapur pennawd;

Nôl

(D) Gŵr, Gwraig neu Bartner Sifil Gwladolyn o'r Swistir

Rhaid i chi ddarparu:

- Pasport neu Gerdyn Hunaniaeth Genedlaethol eich perthynas;
- Prawf o'ch perthynas iddynt; a

Cyflogedig	Hunangyflogedig	Chwilio am Waith	Cyflogedig yn y Gorffennol
• P60; neu • lythyr gan gyflogwr ar bapur pennawd.	• cyfrifon archwiliedig; • ffurflenni treth; neu • fanylion eich incwm.	• P60; • hen P45; • llythyr gan gyn cyflogwr ar bapur pennawd; • cyfrifon archwiliedig; • ffurflenni treth; neu • fanylion eich incwm.	• P45; • P60; neu • lythyr gan gyn cyflogwr ar bapur pennawd;

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

(E) Plentyn Gwladolyn o'r Swistir

Os ydych chi wedi bod yn preswylio yn yr AEE/Swistir am 3 blynedd, rhaid i chi ddarparu'r canlynol ar gyfer eich rhiant, llysriant neu riant partner sifil:

- Pasport neu Gerdyn Hunaniaeth Genedlaethol; a
- Prawf o'ch perthynas iddynt;

Nôl

(F) Plentyn Gwladolyn o Dwrci

Os ydych chi wedi bod yn preswylio yn yr AEE/Twrci am 3 blynedd, rhaid i chi ddarparu:

- Pasport neu Gerdyn Hunaniaeth Genedlaethol eich rhiant;
- Prawf o'ch perthynas iddynt;

Cyflogedig	Hunangyflogedig	Cyflogedig yn y Gorffennol
• P60; neu • lythyr gan gyflogwr ar bapur pennawd.	• cyfrifon archwiliedig; • ffurflenni treth; neu • fanylion eich incwm.	• P45; • P60; neu • lythyr gan gyn cyflogwr ar bapur pennawd;

Nôl

(G) Statws preswylydd sefydlog: Caniatâd Amhenodol i Ddod i'r DU neu Aros ynddi

Mae hyn yn golygu y gallwch fyw yn barhaol yn y Deyrnas Unedig heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar ba mor hir yr arhoswch. Os ydych chi wedi bod yn breswylydd sefydlog ers 3 blynedd, darparwch:

- Basport yn cadarnhau statws mewnfudo; neu
- Lythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau statws mewnfudo;

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

(H) Ffoadur

Rhaid eich bod chi wedi byw yn y Deyrnas Unedig ers dyfarnu Statws Ffoadur. Dyma'r dystiolaeth angenrheidiol:

- Eich dogfen statws mewnfudo; a'ch
- Llythyr gan y Swyddfa Gartref

Nôl

(I) Aelod teuluol Ffoadur

Rhaid eich bod chi wedi byw yn y Deyrnas Unedig ers dyfarnu Statws Ffoadur. Rhaid i chi ddarparu:

- Dogfen statws mewnfudo'ch perthynas;
- Llythyr gan y Swyddfa Gartref eich perthynas; a
- Phrawf o'ch perthynas i'r person hwnnw ar adeg eu cais i'r Swyddfa Gartref;

Nôl

(J) Wedi cael 'Caniatâd i Ddod i'r Deyrnas Unedig neu Aros Ynddi'

Rhaid eich bod chi wedi byw yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ers 3 blynedd. Dyma'r dystiolaeth angenrheidiol:

- Eich dogfen statws mewnfudo; a'ch
- Llythyr gan y Swyddfa Gartref;

Nôl

(K) Aelod teuluol rhywun sydd wedi cael 'Caniatâd i Ddod i'r Deyrnas Unedig neu Aros Ynddi'

Rhaid eich bod chi wedi byw yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ers 3 blynedd. Rhaid i chi ddarparu:

- Dogfen statws mewnfudo'ch perthynas;
- Llythyr gan y Swyddfa Gartref eich perthynas; a
- Phrawf o'ch perthynas i'r person hwnnw ar adeg eu cais i'r Swyddfa Gartref

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Manylion Annibyniaeth

Yn dibynnu ar eich statws annibyniaeth, ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs, rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth ganlynol.

- ydych chi'n 25 oed neu'n hŷn?
- oes plentyn yn eich gofal rydych yn gyfrifol amdano?
- ydych chi wedi cefnogi'ch hun yn ariannol am dros 3 blynedd?
- ydych chi'n byw yng ngofal Awdurdod Lleol?
- ydych chi wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil neu'n parhau i fod felly?
- Ydy'ch dau riant wedi marw neu ydych chi wedi ymddieithrio oddi wrthynt?

Nôl i Ben y Dudalen

SYLWCH - Derbyniwn dystiolaeth ddogfennol wreiddiol yn unig. Os anfonwch lungopïau, bydd yn oedi'ch cais. Byddwn yn dychwelyd dogfennau gwreiddiol i chi cyn gynted â phosibl.

25 oed neu'n hŷn

Os ydych chi'n 25 oed neu'n hŷn darparwch y dystiolaeth ganlynol:

- Pasport; neu
- Dystysgrif Geni/Mabwysiadu

Nôl

Plentyn yn eich gofal

Os oes gennych blentyn yn eich gofal rydych yn gyfrifol amdano, darparwch y dystiolaeth ganlynol:

(Sylwch: mae hyn yn golygu eich bod chi'n gofalu am blentyn a bod y plentyn yn byw gyda chi, ni waeth beth yw'ch perthynas gyda'r plentyn)

- eich datganiad Budd-dal plant diweddaraf; neu
- dystysgrif Geni/Mabwysiadu eich plentyn; a
- chadarnhad o'ch cyfeiriad presennol

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Wedi cefnogi'ch hun yn ariannol

Os ydych chi wedi cefnogi'ch hun yn ariannol ers dros 3 blynedd, darparwch y dystiolaeth ganlynol:

(Sylwch, er mwyn i chi ystyried eich hun yn hunangefnogol, rhaid i chi fodloni'ch costau byw eich hun o gyflogaeth neu fudd-daliadau. Nid ystyrir eich bod yn hunangefnogol os ydych yn talu costau byw o arian a delir gan riant/gwarcheidwad neu o gyllid addysg bellach neu addysg uwch.)

- P60 dyddiedig o leiaf 3 blynedd yn ôl; neu
- Ddatganiad budd-daliadau dyddiedig o leiaf 3 blynedd yn ôl.

Nôl

Byw yng ngofal Awdurdod Lleol

Os ydych chi'n byw yng ngofal Awdurdod Lleol, darparwch y dystiolaeth ganlynol:

- Llythyr gwreiddiol ar bapur pennawd gan eich Awdurdod Lleol sy'n cadarnhau eich bod chi'n byw yn eu gofal.

Rhaid i'r llythyr hwn hefyd gadarnhau'ch cyfeiriad presennol ac mae angen iddo gael ei lofnodi gan swyddog awdurdodedig o'ch Awdurdod Lleol a chynnwys stamp swyddogol.

Nôl

Priod/Partneriaeth Sifil

Os ydych chi, neu os buoch, yn briod neu mewn partneriaeth sifil, darparwch y dystiolaeth ganlynol:

- Tystysgrif priodas; neu
- Dystysgrif Partneriaeth Sifil

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Rhieni wedi marw/Wedi ymddieithrio oddi wrth rieni

Os yw'ch dau riant wedi marw neu os ydych chi wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhiant/rhieni, rhaid i chi ddarparu cadarnhad dyddiedig o fewn y flwyddyn ddiwethaf gan berson proffesiynol y tu allan i'ch teulu sy'n gwybod am eich amgylchiadau.

Dyma enghreifftiau o dystiolaeth:

- Llythyr gan eich gweithiwr cymdeithasol.
- Os hawlioch gymhorthdal incwm a lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n seiliedig ar incwm pan oeddech o dan 18 oed, llythyr gan eich swyddfa leol o'r Ganolfan Byd Gwaith yn dangos eich bod chi wedi cael budd-daliadau yn sgil eich ymddieithriad.
- Os chwalodd eich perthynas gyda'ch rhieni pan oeddech yn yr ysgol neu'r coleg, llythyr gan weithiwr cyngor/tiwtor personol/athro yn cadarnhau'ch amgylchiadau.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Manylion Ariannol y Cartref

- Mathau Safonol o Incwm
- Mathau Eraill o Incwm
- Didyniadau

Nôl i Ben y Dudalen

SYLWCH - Derbyniwn dystiolaeth ddogfennol wreiddiol yn unig. Os anfonwch lungopïau, bydd yn oedi'ch cais. Byddwn yn dychwelyd dogfennau gwreiddiol i chi cyn gynted â phosibl

Mathau Safonol o Incwm

Cyflogau

Incwm Hunangyflogaeth

Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol Trethadwy

Nôl

Cyflogau

Disgrifiad

Dyma gyfanswm y tâl trethadwy. Dyma'r swm a delir cyn y gwneir unrhyw ddidyniadau ar gyfer Treth Incwm neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae'n cynnwys:

- Pob Incwm o Gyflogaeth
- Cyflog Salwch Statudol
- Cyflog sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad
- Budd-daliadau/Taliadau mewn Nwyddau
- Cyflog Mamolaeth Statudol
- Cyflog Tadolaeth Statudol
- Cyflog Mabwysiadu Statudol
- Cil-dyrnau neu Roddion
- Taliadau Goramser

PEIDIWCH Â CHYNNWYS unrhyw elfen Credyd Treth neu Gredyd Treth Gwaith o'r Fargen Newydd a gewch ar wahân neu fel rhan o'ch cyflogau. Nid yw'r credydau hyn yn cyfrif at ddibenion GDC.

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- P60;
- Slip Cyflog Mis 12; neu
- Slipiau Cyflog Wythnos 50, 51 a 52.

Os cawsoch fwy nag un cyflogwr yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rhaid i chi hefyd gynnwys:

- P45

Os cawsoch fudd-daliadau neu Daliadau mewn Nwyddau, rhaid i chi hefyd gynnwys:

- P11D; neu
- P9D

Nôl

Incwm Hunangyflogaeth

Disgrifiad

Dyma'r incwm ac elw o hunangyflogaeth, naill ai ar eich pen eich hun neu mewn partneriaeth, fel y mae'n ymddangos ar eich ffurflen SA302.

Mae'n cynnwys:

- Incwm rhentu busnes.
- Unrhyw incwm arall o berchen yr eiddo.

Nid yw'n cynnwys:

- Cyfraniadau gros a wnaed i gynllun pensiwn personol.
- Unrhyw golledion masnachu a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- SA302 diweddaraf

Os nad oes gennych SA302 neu Hysbysiad o Ddyfarniad y Credyd Treth, gallwch gyflenwi:

- Llythyr cyfrifydd ar bapur pennawd

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Buddion Nawdd Cymdeithasol Trethadwy

Disgrifiad

Mae hwn yn daliadau a wneir i unigolion o dan y system Nawdd Cymdeithasol a gynhelir gan y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Swyddfa Bensiynau.

Yn benodol:

- Pensiwn Ymddeol.
- Lwfans Rhiant Gweddw.
- Lwfans Gofalwr.
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol.
- Budd-dal Analluogrwydd (ar ôl 28 wythnos)*.
- Budd-dal Profedigaeth.
- Lwfans Ceiswyr Gwaith.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Gyfraniadau.

PEIDIWCH Â CHYNNWYS cymhorthdal incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm. Os ydych chi'n cael y naill un o'r rhain, atebwch C2a os ydych chi'n fyfyriwr neu'n bartner myfyriwr, neu c6b os mai chi yw rhiant/gwarcheidwad y myfyriwr.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Datganiad/Cofnod o fudd-dal trethadwy a delir gan eich Swyddfa leol o'r Ganolfan Byd Gwaith neu Swyddfa Nawdd Cymdeithasol; neu
- Gyfriflen ddiweddar sy'n dangos y taliadau hyn

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Mathau Eraill o Incwm

Cynilion a Buddsoddiadau
Incwm Ymddiriedolaeth
Incwm o Dramor
Incwm Eiddo/Rhentu
Incwm Pensiwn
Incwm Tybiannol

Nôl

Cynilion a Buddsoddiadau

Disgrifiad

Mae hwn yn incwm nad ydych yn gweithio i'w ennill.

Mae hyn yn cynnwys:

- Llog ar gynilion a buddsoddiadau o gyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu cyn didynnu treth. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddifidendau a gafwyd.

Nid yw hyn yn cynnwys cyfrifon rhydd o dreth, fel TESSAs, PEPs neu ISAs.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Cyfriflenni Banc neu Gymdeithas Adeiladu;
- Cyfriflenni blynyddol o Log;
- Talebau Difidend.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Incwm Ymddiriedolaeth

Disgrifiad

Mae hwn yn incwm, cyn didynnu treth, a geir o:

- Ymddiriedolaethau.
- Taliadau Llawn.
- Trosglwyddo Asedau.
- Gwerth y llog sydd gennych chi neu sydd gan eich partner yn ystâd person sydd wedi marw. Gallai'r rhain fod yn asedau ar ffurf arian, ymddiriedolaeth neu eiddo.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Cyfriflenni blynyddol; neu
- Dystysgrif o Ymddiriedolaeth gan weinyddydd yr ymddiriedolaeth.

Nôl

Incwm o Dramor

Disgrifiad

Mae hwn yn incwm a gafwyd yn y flwyddyn ddiwethaf o unrhyw waith a wnaed tramor neu unrhyw fuddsoddiadau a ddaliwyd tramor cyn treth. Rhaid cofnodi'r holl symiau mewn punnoedd sterling (£).

Mae'r incwm hwn yn cynnwys:

- Difidendau o gyfranddaliadau a ddelir tramor.
- Buddion Pensiwn a Nawdd Cymdeithasol a gafwyd o dramor.
- Incwm o dir neu eiddo tramor (fel rhent).
- Unrhyw incwm arall o ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill o dramor (fel enillion o bolisïau aswiriant/yswiriant bywyd tramor, blwydd-daliadau neu bolisïau adbrynu cyfalaf tramor).

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Tystiolaeth y Swyddfa Dreth Dramor;
- Nawdd Cymdeithasol Tramor;
- Tystysgrif Pensiwn Tramor; neu
- Dystysgrifau/Datganiadau Incwm eraill.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Incwm Eiddo (a adwaenir fel Incwm Rhentu hefyd)

Disgrifiad

Mae hwn yn incwm a gafwyd o dir neu eiddo rydych yn berchen arnynt ac/neu rydych yn eu rhentu ar brydles i barti arall. Nid yw hyn yn cynnwys incwm a dalwyd gan y cynllun ‘Rhentu Ystafell’ (os ydych chi’n rhoi llety yn eich cartref eich hun ar osod am £4,250 neu lai y flwyddyn).

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Llyfr Rhentu; neu
- Gyfriflenni.

Nôl

Incwm Pensiwn

Disgrifiad

Mae hwn yn incwm a gawsoch os ydych o oedran pensiwn.

Mae’n cynnwys:

- Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth.
- Incwm Pensiwn Statudol.
- Cynlluniau Pensiwn Personol.
- Blwydd-daliadau Ymddeol.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Cyfriflenni Pensiwn Blynyddol;
- Llyfr Pensiwn;
- P60 Pensiwn; neu
- Dystysgrif o’r pensiwn a dalwyd.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Incwm Tybiannol

Disgrifiad

Mae hwn yn incwm a gaiff ei drin yn incwm a gafwyd, hyd yn oed os na chafwyd ef yn gorfforol.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfalaf a gaiff ei drin fel Incwm – Gan gynnwys difidendau a dalwyd fel cyfranddaliadau yn ogystal ag arian parod (difidendau stoc) a phremiymau ar gyfer rhoi prydles ar eiddo rydych yn berchen arno.
- Incwm ymddiriedolaeth a gaiff ei drin fel incwm person arall, fel llog dros £100 ar gyfalaf yng nghyfrif cymdeithas adeiladu plentyn.
- Incwm a ildioch neu a drosglwyddoch i berson arall, gan gynnwys gwerthu pensiwn galwedigaethol neu drosglwyddo cyfrif banc i enw rhywun arall.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

Byddwn yn derbyn eich llofnod yn Rhan J y ffurflen gais GDC.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Didyniadau

Cyfraniadau Pensiwn Preifat

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

Cyflogau ar gyfer Cymorth Domestig yn sgil Analluogrwydd

Unrhyw dreuliau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

Nôl

Cyfraniadau Pensiwn Preifat

Disgrifiad

Mae hwn yn bolisi personol a brynwch eich hun gan gwmni yswiriant neu sefydliad ariannol ac y talwch gyfraniadau ato.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Llythyr gan y cwmni pensiwn.
- Datganiad P60 pensiwn

Nôl

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

Disgrifiad

Mae Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn gyfraniadau ychwanegol a dalwch i gynllun pensiwn i ddod â'ch cynilion pensiwn hyd at yr uchafswm y bydd y llywodraeth yn ei ganiatáu.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Llythyr gan y cwmni pensiwn;
- Datganiad P60 pensiwn.

Nôl

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Cyflogau ar gyfer Cymorth Domestig yn sgil Analluogrwydd

Disgrifiad

Mae hwn yn arian a gawsoch i dalu am gymorth domestig.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- Datganiad/llythyrau budd-daliadau

Nôl

Unrhyw dreuliau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

Disgrifiad

Mae hwn yn unrhyw dreuliau eraill a achoswyd fel rhan o'ch swydd yr ydych yn hawlio eithriad treth amdanynt.

Tystiolaeth Wreiddiol Angenrheidiol

- P2
- Datganiadau Cyllid a Thollau EM

Nôl

Nôl i Ben y Dudalen

Gwefan	Ffôn
www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/GDC Os byddwch yn dod ar draws unrhyw broblemau neu os hoffech roi rhywfaint o adborth ar y pdf hwn, anfonwch e-bost at: webmaster@slc.co.uk	**0845 602 8845** Oriau Agor Llun i Gwener 8:00am - 8:00pm Sadwrn 9:00am - 1:00pm.

© Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr